# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

MAI 1976

RHIF 30



# Canolfan Dechnoleg i Gymru?

**Bu son unwaith eto yn y wasg yn ddiweddar am y Ganolfan Gelfyddydau Genedlaethol yr arfaethir ei sefydlu yng Nghaerdydd. Y ffigur swyddogol a roddir am y gost yw rhyw £11 miliwn, ond y mae'n debyg y byddai lleiafswm o ryw £16 miliwn yn amcangyfrif mwy realistaidd erbyn hyn. Un gŵr sy'n gweld hyn oll braidd yn eironig yn wyneb gwir anghenion Caerdydd — a Chymru gyfan — yw Mr Ambrose Williams o Gaerdydd, gŵr sy'n adnabyddus i lawer am ei lafur diflino dros sicrhau adnoddau technolegol cymwys i Gymru.**

Ymgyrch i sicrhau Canolfan Dechnoleg i Gymru yw teitl swyddogol ei ymgyrch ef a'i gefnogwyr erbyn hyn, ond bu'n ymladd brwydr ar y llinellau hyn am ugain mlynedd a mwy, ymhell cyn dyrchafu Tony Wedgewood Benn yn Weinidog Technoleg o dan Lywodraeth Lafur 1964-70, pan ddaeth syniadau cyffrous y gwr hwnnw o greu *Technocentres* ledled Prydain i amlygrwydd mawr. Gellir mesur llwyddiant Mr Williams yn y gefnogaeth y mae wedi llwyddo i'w chrynhoi o blaid ei syniadau: mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol Cymru, aelodau seneddol, economegwyr prifysgol, cwmniau masnachol, undebau llafur a chyrff eraill.

Ym 1969, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Dechnoleg fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer nifer o *technocentres:* Caerdydd a Swindon oedd y llefydd cyntaf i'w henwi yn y cyswllt hwn. Cafodd Swindod ei chanolfan (un fechan, mae'n wir ond un sydd wedi gwneud y byd o wahaniaeth i'r dref honno a pheri iddi ffynnu'n economaidd er gwaethaf ofnau cynharach y byddai'r dref yn dioddef o ddirwasgiad o ganlyniad i gau'r ganolfan reilffyrdd, prif ddiwydiant y dref yn flaenorol rai blynyddoedd yn ôl). Ond eto, ym 1976, erys Caerdydd yn anialwch o ran dylunio

*(parhad ar dud. 5)*



*MEREDITH EDWARDS sy'n chwarae Malachi yng nghynhyrchiad Theatr yr Ymylon o ddrama Idwal Jones, POBL YR YMYLON.*

## Y Blaid yng Nghaerdydd

Y Blaid yn rheoli Cyngor Merthyr gyda mwyafrif iach ac o fewn trwch blewyn o sicrhau mwyafrif dros yr holl bleidiau eraill yng Nghwm Rhymni. Dyna'r newyddion gwych a ddaeth yn sgil Etholiadau Cyngor Dosbarth yr wythnos ddiwethaf.

At hynny, dyblwyd cynrychiolaeth y Blaid ar Gyngor Arfon a chafwyd cynnydd sylweddol ym Meirion, ynghyd â chipio seddau unigol yma a thraw dros Gymru. Dyma'r Blaid felly yn cadarnhau ei sefyllfa yn etholaethau'r ddau Ddafydd, ac yn sicrhau troedle gref iawn iddi hi'i hun yng nghymoedd diwydiannol y de gan reoli cyngor dosbarth am y tro cyntaf. Does bosib na ellir ennill Merthyr a Chaerffili yn awr yn yr Etholiad Cyffredinol nesaf?

A beth amdanom ni yma yng Nghaerdydd? Dywedodd 'rhen Siân wrth edrych drwy ei Sbectol ar ganlyniadau

*(parhad ar dud 5)*

## POBL YR YMYLON

**Ceir cyfle y bydd llawer ohonom yn falch ohono y mis hwn i weld perfformiad o ddrama enwog Idwal Jones, POBL YR YMYLON gan Theatr yr Ymylon.**


**Er bod y ddrama hon bellach yn hanner can mlwydd oed, a rhannau ohoni'n ddigon naif a hen-ffasiwn wrth safonau cynulleidfaoedd heddiw, deil i fod o ddiddordeb nid yn unig o safbwynt hanesyddol ond o safbwynt mwynhad cyffredinol hefyd. Ar y naill law, roedd hon yn ddrama feiddgar ac arloesol yn ei dydd, yn drwm ei ffrewyll ar y parchusrwydd ffug-grefyddol a fu'n llyffethair ar Gymru cyhyd, a chafodd ei chondemnio ar y pryd gan nifer o newyddiaduron ac wythnosolion Cymraeg am ei bod, yn eu tyb hwy, yn dilorni pregethwyr a chrefydd. Ar y llaw arall, comedi oedd dewis gyfrwng Idwal Jones i geisio cyfleu ei syniadau wrth gynulleidfa, ac y mae hon yn ddrama wirioneddol ddoniol y gellir ei mwynhau ar y lefel honno yn unig.**

**Meredith Edwards sy'n chwarae Malachi Jones, y crwydryn sy'n cael cyfle i droi'n bregethwr am ddydd, a phleser yw ei groesawu ef, a'r actores wych arall honno Beryl Williams (sy'n chwarae'r hen sipsi) yn ôl i Gaerdydd.**

**Mae'n debyg i Theatr yr Ymylon dynnu'n helaeth ar wybodaeth Mrs Eldra Jarman o fywyd traddodiadol y sipswn yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer y ddrama hon. Mae Mrs Jarman yn un o ddisgynyddion llwyth Romani enwog Abraham Wood, ac fe fydd hi'n cyhoeddi cyfrol ar y pwnc diddorol hwn yn y dyfodol agos.**

**Bydd POBL YR YMYLON yn Yr Arena, Theatr Sherman o Fai 13 i'r 15, am 8.00p.m.**

# NEWYDDION CWM RHYMNI



## HAWL I HOLI

Daeth rhaglen y flwyddyn o Gymdeithas Gymraeg Caerffili i ben gyda noson hynod o ddiddorol yn recordio dwy raglen yn y gyfres radio 'Hawl i Holi'. Ar y panel oedd Dai Francis, Billy Raybould, Lena Pritchard-Jones ac Alun Williams gyda'r cadeirydd Emyr Daniel yn ceisio cadw trefn ar y cyfan. Un o uchafbwyntiau'r noson, yn sicr, oedd honiad Dai Francis nad oedd yr Arglwydd Chalfont yn gwybod dim mwy na 'donci ar ei wyliau'!

Wrth ddod â gweithgareddau'r flwyddyn i ben, mynegodd y Cadeirydd, y Parchedig Denzil John, fod y noson wedi coroni blwyddyn o lwyddiant arall yn hanes y Gymdeithas.

## SWYDDOGION

Yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Gymdeithas etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 1976-77: Llywydd, Mrs Eleri Betts; Is-Lywydd, Dafydd Islwyn; Trysorydd, y Cynghorwr H.P. Richards; Ysgrifenyddion, Gareth Roberts ac Alun Charles. I wasanaethu ar y pwyllgor:- y Parchedig Denzil John, Derec Harper, Val Hookway, Bryn Jones ac Orthin Thomas.

## CYLCH DIWYLLIANNOL

Daeth tymor Cylch Diwylliannol Caerffili i ben gyda'r ddegfed ddarlith yng nghyfres W.J. Jones ar fywyd a gwaith Saunders Lewis — cyfres a drefnwyd mewn cysylltiad ag Adran Allanol y Brifysgol, Caerdydd, ac a fu'n dra lwyddiannus drwy gydol y gaeaf. Dangosodd y cylch ei werthfawrogiad o waith W.J. a fu'n arwain ac yn ysbrydoli llawer o drafodaethau diddorol o gyfarfod i gyfarfod, drwy'i anrhegu â thocyn llyfrau. Penderfynwyd gwahodd W.J. yn ôl i Gaerffili y flwyddyn nesaf i gynnal cwrs yn olrhain hanes y ddrama — o fewn Cymru ac ar y cyfandir. Ail-etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 1976-77: Llywydd, Mrs E.J. Richards ac Ysgrifennydd, Mr Dafydd Islwyn, 106 Heol Llancayo, Bargoed.

## CYLCH BARDDOL

Mae'r cyfeiriad uchod yn un sy'n adnabyddus iawn i holl feirdd cylch Cwm Rhymni a thu draw oherwydd yno y bydd tua hanner dwsin ohonynt yn ymgasglu ar ambell nos Sadwrn i feithrin eu dawn ac i ymgomio ym myd y pethe. Dywedir fod y bardd enwog Alan Llwyd yntau wedi bod yno'n mwynhau yr awen ar lawer achlysur. Tybed ai'r cwmni hwn sydd wedi ysbrydoli Dafydd Islwyn i ysgrifennu'r gerdd a ymddangosodd yn *Y Faner* yn ddiweddar i goffáu'r diweddar Barchedig Herbert Evans, Caer?

## GŴYL LYFRAU

Bu ni fer o drigolion Cwm Rhymni yn ymweld â Gŵyl Lyfrau'r De a gynhaliwyd dros gyfnod o dridiau yng Ngholeg Technegol Cross Keys. Ystyrir yr ardal honno fel un bur anial o safbwynt diddordeb yn yr iaith Gymraeg ond fe syfrdanwyd trefnwyr yr Ŵyl gan y diddordeb a ddangoswyd gan y trigolion lleol ac ysgolion Gwent. Dywedodd Elan Clos Stephens, swyddog gyda'r Cyngor Llyfrau, fod brwdfrydedd y bobl gyffredin a'r awdurdodau wedi bod yn galonogol iawn ac wedi rhoi hwb i waith y Cyngor yn y rhan hon o Gymru.

## CÔR GODRE'R GARTH

Un o ddigwyddiadau mawr tymor yr haf yng Nghaerffili fydd cyngerdd mawreddog Aelwyd yr Urdd a gynhelir ar nos Wener, Mai 14, am 7.30p.m. yn neuadd Ysgol Martin Sant. Y prif artistiaid fydd Côr Godre'r Garth a rhoddir eitemau hefyd gan unawdwyr a phlant ysgolion lleol. Mae tocynnau ar gael eisoes am 50c i oedolion a 25c i blant a phensiynwyr oddiwrth Gareth Roberts (Caerffili 867365).


## Mae ar Y DINESYDD angen asiant hysbysebu rhan amser

i weithio am gomisiwn

* Gwaith diddorol i rywun sydd am weithio ar y ffôn o'i gartref/chartref
* Mae arddull gyfeillgar ar y ffôn yn bwysicach na phrofiad blaenorol
* Os oes gennych ddiddordeb, ffôniwch Caerdydd 396262 os gwelwch yn dda


# Draw draw yn Tsieina...

Hoffech chi drip i Sieina eleni? Wel, mae cyfle i chi fynd am drip felly gyda chymdeithas newydd sydd wedi bod yn gweithredu yng Nghymru ers mis Chwefror diwethaf, gyda'r bwriad o feithrin cyfeillgarwch a dealltwriaeth rhwng Cymru a Sieina.

Mae'r Gymdeithas hon, *Sieina a Chymru Undebol* (cyfieithad braidd yn ddyrys o *Wales-China Friendship Society*) mewn cysylltiad uniongyrchol â Peking ac mae ei rhaglen o weithgareddau yn uchelgeisiol a thra diddorol. Heblaw am drefnu'r daith y soniwyd amdani uchod (a fydd yn ymweld â Bro Genedlaethol Annibynnol un o leiafrifoedd cenedlaethol Sieina), cynhelir cyfarfodydd ledled Cymru, darlithiau ac arddangosfeydd. Gellir gweld arddangosfa o sgroliau o Sieina, y cyntaf o'i bath yng Nghymru, yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd o ganol mis Mai hyd Fehefin 7fed a nos Wener, Mai 21ain fe fydd cyfarfod yn y coleg pan fydd Eve Sheringham yn siarad ar "Gelfyddydau Sieina". Cyfarfod arall o ddiddordeb arbennig fydd trafodaeth o dan arweiniad Roland Berger ar "Genhedloedd Sieina".

Ym mis Hydref, dangosir arddangnosfa o beintiadau gwreiddiol gan werin Sieina yng Nghymru cyn iddi agor yn Llundain. Y mae hi'n gryn deyrnged i ni gan lywodraeth Sieina iddynt ganiatau i'r arddangosfa ddod yma yn syth ar ôl ei dangos yn y Swisdir a chyn ei dangos unrhywle arall yn y byd. Heblaw am hynny, dylai fod yn arddangosfa bwysig, o safon uchel ac o ddiddordeb i unrywun sy'n caru'r tir a bywyd gwledig.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â'r gymdeithas hon, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Mrs Mary Brueton, Vellore, 66 Station Rd., Llanishen, Caerdydd, (ffôn: 753587).

# Newyddion Llanhari

Gŵyr pawb mai tymor prysur yw tymor y Pasg — Dydd Gŵyl Dewi, Eisteddfodau ag ati. Yn Llanhari, golygodd hyn brysurdeb arbennig eleni, a ninnau'n cynnal Eisteddfod Ysgol am y tro cyntaf. Cafwyd brwdfrydedd arbennig, yn enwedig i gystadleuthau na welir mohonynt ym mhob eisteddfod — cydadrodd tuag 'nôl, côr chwibanu, dynwared ag ati — a bodlonwyd pawb gan ddiwrnod cofiadwy; beirniaid, athrawon a phlant.

Rhaid bod yn fwy difrifol wrth ystyried eisteddfodau'r Urdd, a bu'r plant yn ddygn a brwd yn eu paratoadau. Casom dipyn o lwyddiant ac edrychwn ymlaen at deithio i Borthaethwy!

Cafodd y buddugwyr gyfle i ddangos eu safon i'w rhieni a'i ffrindiau mewn cyngerdd a gynhaliwyd yn yr ysgol Nos Fercher, Ebrill 7fed. Drama un act oedd rhan gyntaf y noson: 'Y Goeden Gnau' gan T.B. Morris, a gwelwyd actio addawol iawn gan y plant — "perfformiad graenus" oedd y farn gyffredinol.

Yna, cafodd buddugwyr Eisteddfodau'r Urdd — yn unigolion, partion adrodd a chanu, côr a pharti — gyfle i ddangos eu medr, a chafwyd canmoliaeth iddynt am eu perfformiadau.

Edrychwn ymlaen yn eiddgar at yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhorthaethwy, ond cyn hynny, cawn wyliau i adgyfnerthu!

# O'r Ganolfan... i Borthaethwy

Yng Nghanolfan yr Urdd, daeth Wlpan arall i ben cyn y Pasg. Dyma'r chweched un ers pan sefydlwyd y Cwrs ddwy flynedd yn ol. Bydd yr un nesa yn dechrau ym mis Medi; mae'r athrawon, wrth gwrs, yn rhoi eu gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Sefydlwyd Clwb Cymraeg i ddysgwyr mwyaf rhugl y Ganolfan fis Medi diwetha a bron pob wythnos ers hynny mae siaradwyr gwadd wedi bod yn sgwrsio â nhw. Eisoes cafwyd sgyrsiau hynod ddiddorol gan Shân Emlyn, John Idris Evans, Lena Pritchard Jones, John Charles Davies, Harri Pritchard Jones, Marian Rees, Eiry Humphreys, Wynne Lloyd, Ray Evans, Bernard Evans, John Albert Evans, Mair Elfet Thomas, Nia Daniel, Dafydd Huws, Mallt Anderson, Eirion Lewis, W.J. Jones a Meri Wiliam.

Mae dosbarthiadau Dysgu Cymraeg arferol y Ganolfan yn dal i fynd o nerth i nerth. Eleni, arbrofwyd drwy gynnig cwrs dwy noson yr wythnos i'r Flwyddyn Gyntaf am y ddau dymor cyntaf ac un noson yr wythnos yn ystod yr Haf. Daeth dros drigain o bobl i ymuno â'r cynllun yma ac mae dros eu hanner yn dal yn ffyddlon. Unwaith eto, dysgir y bobl hyn gan griw o athrawon ymroddedig a phawb yn gwneud y gwaith yn wirfoddol. Rhwng pawb mae tua 27 o bobl yn cynorthwyo'r dysgwyr yn y Ganolfan a'r cwbl yn wirfoddol.

Adeg Nadolig, collwyd un o'r athrawon pan symudodd i'r Gogledd i fod yn brifathro ar Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy. Cyfeirio ydwyf at John Blake, brodor o Ddyffryn Ardudwy a fu'n athro Cymraeg llwyddiannus iawn am nifer o flynyddoedd yn Ysgol Gynradd Cwrt yr Ala yn ardal Caerau yng Nghaerdydd. Bu'n weithiwr caled a diwyd dros bopeth Cymraeg tra bu'n byw yng Nghaerdydd a chawsom golled fawr yn ei ymadawiad â Chaerdydd.

Un arall o weithwyr ymroddedig y Ganolfan oedd Catrin Davies sy erbyn hyn wedi priodi ac wedi mynd i fyw i Faenclochog, Dyfed. Bu hithau am rai blynyddoedd yn athrawes ar grŵp o ddysgwyr yn y Ganolfan a gwelir ei heisiau hi nid yn unig fel athrawes ond hefyd oherwydd ei gwaith aruthrol gyda Phwyllgor y Ganolfan a llu o fudiadau a Chymdeithasau tu allan i'r Ganolfan. Er colli'r ffyddloniaid hyn, mae eraill yn dod i lenwi'r bylchau ac mae croeso i unryw athro neu athrawes i gynnig eu gwasanaeth yn y gwaith hollbwysig o gyflwyno'r iaith i'r llu o ddysgwyr sy'n dod i'r Ganolfan o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r angen yn fawr ac felly os ydych chi'n meddwl y gellwch gynorthwyo fis Medi nesa, rhowch wybod i Warden y Ganolfan neu i Gwilym Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbeina. (Ffôn: 62254).




Ydy, mae'n rhaid i bwyllgor rheoli'r ganolfan godi dros £3,000 bob blwyddyn i gadw'r drysau'n agored. Mae hyn yn gryn faich, ond ceir cefnogaeth ardderchog gan y dysgwyr sy'n defnyddio'r ganolfan; yn anffodus, rhaid dweud fod cefnogaeth aelodai'r Aelwyd sy'n mynychu'r lle bob nos Wener yn echrydus, a llawer ohonynt, yn wir y mwyafrif yn cyfrannu dim, ac yn amharod iawn i gefnogi unrhyw fenter i godi arian at y ganolfan.

Yn ffodus, mae pwyllgor rheoli cydwybodol ganddi sydd eisoes eleni wedi codi swm sylweddol, ond bydd menter fwyaf y pwyllgor yn digwydd ym Mhorthaethwy adeg Steddfod yr Urdd. Y pwyllgor hwn fydd yn gyfrifol am werthu popeth bwytadwy ar y maes heblaw am y prydiau bwyd: hufen ia, melysion, craig (rock!) cŵn poeth, ffrwythau a donyts (beth am i rywun gynnig gair Cymraeg ar gyfer yr olaf o'r rhain: cylchoedd toes, toesgnau... dewch â'ch syniadau!)

Mae'r pwyllgor eisoes wedi talu cannoedd o bunnau am yr hawl i werthu'r rhain ac mae'r aelodau wedi bod wrthi am fisoedd yn paratoi. Gobeithiant wneud elw sylweddol, a gobeithio y gwnewch chithau gefnogi'r achos os byddwch yn y Steddfod. Braf fydd gallu prynu hufen ia Thayers yn sir Fon, ynte?

Gyda llaw, os oes yna ddarllenwyr â chysylltiadau teuluol â Sir Fon, a fyddai'n gallu helpu'r gwaith yma drwy gynnig llety dros y Steddfod i rai o aelodau'r pwyllgor, cysylltwch â Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli, Canolfan yr Urdd, Heol Conwy, Treganna, Caerdydd.

EIN GOHEBYDD EISTEDDFODOL

## Adran yr Urdd: Rhiwbeina

**Daeth tymor arall i ben yn Adran yr Urdd, Rhiwbeina cyn y Pasg gydag arddangosiad o'r ffilm, "Dyma'r Urdd". Daeth nifer o rieni a phlant yr Adran ynghyd i'w gweld. Yn ystod y tymor cafwyd Cyngerdd i'r rhieni a dathlwyd Gŵyl Dewi drwy gael swper, gan wahodd Elliw Haf fel gwestai'r noson. Y tymor nesa bydd yr Adran yn cyfarfod yn yr awyr agored i chwarae pel-fâs, mynd ar daith gerdded, chwarae ar ben y Wenallt ac ati. Arweinir yr Adran gan Mrs Mair Owen, Bob Roberts a Gwilym Roberts.**

# TUDALEN Y DYSGWYR

*Dim ond ychydig wythnosau o ddosbarthiadau nos sydd ar ôl nawr ac yna fe fydd amser hir heb i chi clywed dim Cymraeg o gwbl. Mae llawer o ddysgwyr yn gorffen eu blwyddyn gyntaf o ddysgu'r iaith a phwysig iawn ydy edrych yn ôl ar waith y flwyddyn.*

## NEWYDDION

### POST MORTEM

*Efallai y byddai'n syniad da i chi athrawon dosbarthiadau nos i gynnal post-mortem. Mae rhywbeth allan o'i le yn rhywle — ydych chi'n gwybod fod tua 8 dosbarth blwyddyn gyntaf am bob un ail a thrydydd blwyddyn? Fe fyddai'n sefyllfa wych pe bai pobl yn dysgu'r iaith yn rhugl mewn blwyddyn, ond nid gwir hynny wrth gwrs. Mae llawer o bobl yn dechrau dysgu'r ac yn rhoi'r gorau i'r ymdrech yn ystod, neu ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Pam tybed? Gofynnwch chi athrawon i'ch dosbarth ac rwy'n siwr y cewch chi doreth o atebion diddorol. Dyma rai ges i mewn dosbarth ym Mhenybont beth amser yn ôl:*

*Roedd y gwaith yn rhy galed;*
*Doedd gen i ddim amser i wneud gwaith tu allan i'r dosbarth;*
*Roedd yr hen ysgol yn lle mor ddiflas a'r desgiau mor anghyfforddus ar ôl diwrnod caled o waith;*
*Roeddwn i'n teimlo'n dwp achos roeddwn i wedi gorffen yn yr ysgol yn 15oed ac roedd meddyg ac athrawon yn y dosbarth;*
*Doedd dim cyfle i siarad tu allan i'r dosbarth;*
*Doedd dim llawer o ddiddordeb gan yr athro;*
*Roedd dwy awr yn rhy hir i fi ganolbwyntio.*

*Mae'r ddau reswm olaf yn bwysig iawn, rwy'n meddwl. Os nad oes gan athro Cymraeg wir ddiddordeb mewn dysgu'r iaith i blant neu i oedolion, wnaiff e byth lwyddo a gwell yn aml yw peidio cael dosbarth o gwbl na dosbarth tebyg.*

### DWY AWR YN ORMOD?

*Rydyn ni wedi derbyn mewn ysgolion nos ers blynyddoedd fod pob dosbarth i bara dwy awr. I bwnc fel gwaith coed neu ddawnsio mae dwy awr yn iawn, mae'n siwr, ond tybed na fyddai dosbarth Cymraeg am awr yn unig yn llawer mwy effeithiol yn y pen draw? Ydyn ni'n siwr ei bod hi'n bosibl i oedolyn cyffredin ar ddiwedd diwrnod hir o waith i dderbyn dwy awr o'i ddrilio a'i grilio mewn Cymraeg? Byddwn yn hapus iawn i dderbyn sylwadau dysgwyr ac athrawon ar y pwynt yma.*

### RYDW I

*Un o'r pethau sy'n rhoddi stamp dysgwr ar berson ydyw'r gair ofnadwy yna, "Rydw i". Rwyf i'n gredwr mawr mewn Cymraeg Byw ond dwi erioed wedi hoffi "Rydw i". Mae'n llawer gwell i chi ddysgwyr i ddefnyddio "Rw i'n", "W i'n", "Dw i'n" neu "Rwyf". Mae eisiau claddu "Rydw i" yn fy marn i.*

### CWRDD YN Y GWYLIAU

*Roeddwn i'n son funud yn ôl fod bwlch mawr rhwng diwedd y dosbarth nos nawr a'i ail-ddechrau ym mis Medi. Beth am i'ch dosbarth gwrdd unwaith neu ddwy yn ystod y gwyliau — dros goffi neu gwrw — er mwyn cadw mewn cysylltiad â'r iaith? Cofiwch hefyd am y cyrsiau ac am yr Ysgol Haf yn Y Barri o'r 9-20 Awst. Mae lle i rai o hyd felly os ydych am ddod, ysgrifennwch at Mr John Lloyd, Swyddfa Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr. Mae lle i un neu ddau hefyd ar y cwrs penwythnos yn y Dyffryn o'r 2-4 Gorffennaf. Ysgrifennwch at y Warden ar frys.*

### COLOFN Y CYMRO


*Os oes gyda chi unryw hanes diddorol, stori neu rywbeth tebyg, cofiwch ysgrifennu at Mr Dan Lyn James, Y Gyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth — mae e'n ysgrifennu colofn i'r dysgwyr bob wythnos yn* **Y Cymro**. *Fe fydd e'n falch iawn cael clywed oddi wrth unrywun sy'n dysgu Cymraeg.*

### YR EISTEDDFOD

*Un ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â'r iaith dros yr haf — wythnos yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst. Mae croeso mawr iawn i ddysgwyr yn yr Eisteddfod erbyn hyn, a phabell arbennig iddynt ar y maes.*

*Daliwch ati — a chofiwch yr hen ddihareb Gymraeg, "Dyfal donc a dyrr y garreg." Ydych chi'n deall?*

JOHN ALBERT




## CYRSIAU'R HAF

* Cwrs Penwythnos Y Dyffryn, Gorffennaf 2-4. Manylion oddi wrth Y Warden, Tŷ'r Dyffryn, Sain Nicolas, Caerdydd.
* Aberystwyth, Gorffennaf 12-24. Manylion oddi wrth Y Gyfadran Addysg, Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.
* Coleg Iwerydd, Sain Dunawd (St Donat's) Gorffennaf 16-23. Manylion oddi wrth Yr Uned Iaith, Trefforest.
* Plas Gregynog, Powys, Gorffennaf 18-22. Manylion oddi wrth Y Warden, Coleg Harlech, Harlech, Gwynedd.
* Coleg Harlech, ddiwedd mis Gorffennaf. Manylion oddi wrth Silyn Hughes, Coleg Harlech.
* Coleg y Brifysgol, Bangor — Gorffennaf. Manylion oddi wrth John Ll. Williams, Adran Allanol, Coleg y Brifysgol, Bangor.
* Ysgol Haf Y Barri, Awst 9-20. Manylion oddi wrth John Lloyd, Swyddfa Addysg Bellach, Sunnyside, Penybont ar Ogwr.

## Dymuniadau Gorau

**Unwyd mewn glan briodas Miss Catrin Davies, Aberystwyth a Mr Terry Stevens ar y trydydd o Ebrill yn eglwys Llanbadarn-fawr. Mae'r ddau yn cydweithio yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan a'r llanc, o dan ddylanwad Catrin, wedi dysgu siarad Cymraeg. Bu Catrin yn amlwg yng ngweithgareddau yr Urdd ac yn aelod o gôr cerdd dant Caerdydd. Mae Terry wedi derbyn swydd fel Swyddog Cynllunio yn Y Parc Cenedlaethol, Penfro a bydd y ddau yn ymgartrefu ym Maenclochog. Pob hwyl a bendith i'r ddau.**

## cornel y beirdd

Cri o'r galon wedi'i mynegi mewn cerdd gan un o'r dysgwyr, Alfred Wilson o Dinas Powys.

*GWAE Y DYSGWR*
*Haf 1975, Y Barri*

*Fe ddes i'r Ysgol Haf a gobaith yn fy mron,*
*I siarad Cymraeg yn rhugl (fel dyn o Ynys Môn?)*
*Roedd rhaid i fi ddal ati, i gadw i'r llwybr cul*
*(Fel mynach mewn mynachdy) bob dydd a dros y Sul.*
*Ond dyma fi'n anhapus, yn edrych eitha dwl;*
*Does neb yn gallu deall fy acen Liverpool!*
*Beth i wneud amdano? Ddylwn i ymadael y Fro?*
*Taflu i ffwrdd fy llyfrau? Rhoi'r ffidil yn y to?*
*Fe es i ofyn i'r athro, caredig iawn oedd e,*
*"Peidiwch a phoeni," meddai, "Does dim byd o'i le,*
*Ond yr unig ffordd i wella yw siarad a siarad yn fwy,*
*Mae'n siwr fod rhywun i'ch helpu — oes 'na rywun yn eich plwy?*
*Mae llawer o Gymry'n fodlon i siarad Cymraeg â chi......"*
*Hyd yn oed pan mae'n cael ei llofruddio, gan bobl yr un fath a fi!*

ALFRED WILSON

Paid â digaloni! (Gol.)

# Canolfan Dechnoleg i Gymru?

(parhad)

diwydiannol, gwyddonol a thechnolegol.

Paham? Neu, i gymryd nifer o gwestiynnau sy'n codi o hyn yn eu tro: yn gyntaf, beth yn union yw canolfan dechnoleg? Yn eilbeth, a ydyw'r syniad yn un da? Yn olaf, os yw canolfan o'r fath yn beth i'w chwennych, beth aeth o'i le yng Nghaerdydd?

Un o brif ddibenion Canolfan Dechnoleg fyddai tynnu'r holl sefydliadau, adrannau a chyfryngfeydd sy'n ymwneud â diwydiant, technoleg, peirianneg ac ati yng Nghymru at ei gilydd o dan yr un to, er sicrhau cydweithrediad a chydddatblygiad effeithiol a ffrwythlon. Gellid rhagweld swyddfeydd mewn canolfan o'r fath i gyrff megis Cyfryngfa Ddatblygu Cymru, Adran Ddiwydiant Cymru. Sefydliad y Peiriannwyr, ac Adran yr Amgylchedd i enwi ond rhai; Canolfan Ddylunio Diwydiannol a Pheiriannol a Chanolfan Grefftau a Diwydiannau Gwledig; byddai hefyd yn cynnwys Neuadd Arddangos helaeth a chyfleusterau ar gyfer prynwyr o wledydd tramor. Ceid hefyd arddangosfeydd "byw" o dechnoleg ar waith, cynlluniau ymchwil, a darlithiau, a byddai yno ganolfan gynadledda a llyfrgell. Elfen bwysig iawn mewn canolfan o'r fath fyddai swyddfeydd gyrfa, lle gallai disgyblion ysgol ddod i gysylltiad uniongyrchol â chynrychiolwyr o wahanol feysydd mewn technoleg wrth eu gwaith.

A beth am y canlyniadau? Un o'r pwysicaf fyddai denu diwydiant newydd i Gymru oherwydd byddai canolfan o'r fath yn cynnig cyfle i ddatblygu dyfeisiadau newydd, ffrwyth ymchwil ein prifysgolion, a chyfle i ddatblygu syniadau sy'n tarddu o Gymru er budd Cymru. Rhaid pwysleisio yn y fan hon na chyfyngid y budd i Gaerdydd yn unig: byddai'r syniad yn tyfu fel caseg eira wrth i'r ganolfan wreiddiol ffynnu, gan esgor ar lu o ganolfannau llai ar hyd a lled Cymru a fyddai'n cynnig cyfleusterau ymchwil, arddangosfeydd, hyfforddiant a hysbysrwydd i ateb anghenion lleol.

Am y tro cyntaf, gellid elwa ar raddfa eang ar y "spin-off" mewn gwybodaeth a thechnegau sy'n deillio o'n diwydiannau presennol, a gwneud defnydd creadigol o'u cynnyrch eilradd. (Un enghraifft fach o'r math hyn o beth: mae'n anhygoel meddwl, a Chymru'n un o brif gynhyrchwyr dur y byd, cyn lleied a wneir parthed cynhyrchu nwyddau mewn dur di-staen: llestri bwrdd, addurniadau, tlysau a swfenîrs o bob math. Ond dyna ni — does yna'r un gyfadran ddylunio ddiwydiannol yn yr un coleg yng Nghymru a allai ymgymryd â'r fath waith. Rhaid derbyn, yn hwyr neu'n hwyrach, na allwn ein cynnal ein hunain am byth ar allforio llwyau caru i Siapan yn unig.)

Heblaw am gyflawni'r ymchwil angenrheidiol i sicrhau fod diwydiant yng Nghymru yn datblygu yn y cyfeiriad iawn, byddai'r ganolfan yn gyfrwng hefyd i addysgu'r cyhoedd ynglŷn â thechnoleg gyfoes. Mae technoleg yn effeithio ar ffordd pawb o fyw; wele gyfle felly i'r cyhoedd i ymgyfarwyddo â darganfyddiadau newydd a chael cyfle i fynegi barn arnynt.

Yn yr un modd, heblaw am greu swyddi a gweithgaredd newydd, byddai'r ganolfan yn cynorthwyo hefyd i greu gweithwyr newydd i lenwi'r swyddi. Drwy gynnig arweiniad ar hyfforddiant, gwasanaeth cynghori ar yrfa, a chyfle i weld technoleg ar waith yn yr arddangosfeydd "byw" ac ati, gall sicrhau y bydd mwy o blant Cymru nag erioed o'r blaen yn dewis gyrfa mewn gwyddoniaeth a thechnoleg, ac y bydd to newydd o reolwyr a gweinyddwyr yn codi a chanddynt grap ar faterion gwyddonol a thechnolegol. Yn y cyswllt hwn, y mae hefyd yn hanfodol sefydlu adran Astudiaethau Busnes a Rheoli Diwydiant o'r radd uchaf yn un o'n colegau prifysgol. Ar hyn o bryd, ceir sefydliadau megis Banc y Midland yn cynnig cymhorthdal i fyfyrwyr o Gymry i fynd dros y ffin i lefydd fel Manceinion i astudio'r pynciau hyn — a dyna'u colli i Gymru, yn amlach na pheidio.

Y tu allan i'r ganolfan ei hun, rhaid tynnu'r awdurdodau addysg i mewn i ymgyrch o'r fath, ac ennyn diddordeb mewn dylunio diwydiannol a thechnolegol yn yr ysgolion gan ddyrchafu'r adrannau celf a chrefft o'u safle Sinderelaidd bresennol a sylweddoli eu pwysigrwydd ymarferol ar gyfer y dyfodol. Hoffai Mr Williams weld sefydlu cystadleuaeth genedlaethol flynyddol i'r ysgolion: gellid arddangos cynnyrch gorau'r gystadleuaeth yn y Ganolfan Dechnoleg, a byddai'r fenter yn sicr o gynhyrchu rhyw ddeg neu ddeuddeg o ddyfeisiadau a dyluniadau newydd y gellid eu datblygu'n fasnachol a'u marchnata drwy'r ganolfan. Ond yr effaith bwysicaf oll yn ei farn ef fyddai creu awyrgylch diwydiant a masnach y tu fewn i fframwaith addysg ein gwlad.

Yn wyneb hyn oll, gellir deall pam mae rhoi pobl mor hallt eu beirniadaeth ar gyngor lleol sy'n fodlon gwario arian ar ganolfannau celfyddyd, cyfleusterau chwareuon, amgueddfeydd ac ati (e.e. agored Amgueddfa Forwrol newydd yng Nghaerdydd yn ddiweddar am gost o dros filiwn o bunnau) heb weld pwysigrwydd gwario arian ar yr hyn sy'n mynd i greu gwaith a chreu'r amgylchiadau economaidd a fydd yn sicrhau fod yna bobl yn mynd i fod yma yn y dyfodol i fwynhau'r cyfleusterau hyn oll.

Paham? Paham y collwyd y cyfle a gynigiwyd i ni ym 1969 pan oedd pethau'n ymddangos mor obeithiol? Aeth y ddinas cyn belled â chomisiynu astudiaeth debygolrwydd ar y pwnc, dogefn helaeth a manwl dros ben, ond penderfynodd y cyngor y byddai'n rhaid gwrthod y syniad oherwydd diffyg arian. Roedd yr adroddiad yn awgrymu safle i'r ganolfan yn yr Ais, yn agos i Faes yr Arfau a phrif siopau'r ddinas — safle ddelfrydol. Beth sy'n mynd i ddigwydd bellach i'r safle hon? Ei gwerthu i hapfasnachwyr a datblygwyr masnachol am elw yn y tymor byr pan ellid fod wedi ei rhoi er datblygu gwaith i Gymry a chryfhau economi Gymru yn y tymor hir? Yn ôl Mr Williams, rhoddwyd tir yn rhad ac am ddim i'r Ganolfan Chwareuon Genedlaethol, i'r Amgueddfa, ac i rai sefydliadau cenedlaethol eraill yn ôl pob tebyg; onid oes mwy o reidrwydd rhoi tir ar gyfer Canolfan Dechnoleg i ddarparu cyfle i blant Cymru yn gyffredinol, ac yn enwedig i blant cymoedd dirwasgedig y de, y Cymoedd glo a roddodd fodolaeth i Gaerdydd yn y lle cyntaf?

Soniwyd eisoes am y gefnogaeth a gafodd Mr Williams i'r cynllun o blith cynghorau lleol ledled Cymru. Danfonodd llawer o'r rhain at Gyngor Caerdydd i ofyn am Gynhadledd Genedlaethol ar y pwnc, ond ni ddaeth dim byd o hynny. Gwir iawn fod arian yn brin ar hyn o bryd; ond eto, mae son o hyd am y Ganolfan Gelfyddydau Genedlaethol, a pharodrwydd y Cyngor i fuddsoddi arian mawr mewn cynllun o'r fath. Ydy hon felly yn bwysicach ym marn y Cyngor? Na, meddai Clerc y Cyngor, mewn llythyr ryw ddwy flynedd yn ôl, doedd hyn ddim yn fater o roi blaenoriaeth i un cynllun ar draul y llall...... tybed?

Mae gan Gaerdydd gyfrifoldeb fel prifddinas i wneud yr hyn a all i feithrin economi Cymru gyfan. Tra bod syniadau cefnogwyr y Ganolfan Dechnoleg ar y naill law yn gyffrous ac yn llawn gweledigaeth, ar y llaw arall ymddangosant yn gwbl ymarferol ac yn wir, yn beth amlwg i'w wneud. Rhaid derbyn nad breuddwydwyr sydd wrthi'n argymell y syniadau hyn, ond gwŷr busnes llwyddiannus a phengaled. I gloi, felly, apêl ar i bob un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* i ysgrifennu at Faer Caerdydd i ofyn paham y mae'r Cyngor hyd yn hyn wedi gwrthwynebu pob ymgais ddemocrataidd i sefydlu Canolfan Dechnoleg yng Nghaerdydd, yn wyneb y budd amlwg a ddeilliai ohoni i Gaerdydd — ac i Gymru gyfan.

GOHEBYDD ARBENNIG

## Y BLAID YNG CAERDYDD *(parhad)*

etholiadau lleol ddwy flynedd yn ôl: "Mae hi'n siomedig sylwi fod tua 13,500 yn siarad Cymraeg yn ein prifddinas, ac eto nid oedd holl bleidleisiau'r Blaid (Plaid Cymru) yn cyrraedd hanner y ffigwr hwn." (*Y Dinesydd* Hydref 1974). Gyda phleidlais y Blaid yng Nghaerdydd ond yn ychydig dros 8,000 yn yr Etholiad hwn eto (os cyfartaleddir y pleidleisiau mewn wardiau lle'r oedd mwy nag un ymgeisydd gan y Blaid), ni allwn lai nag adleisio geiriau Sian. Mae'r wawr wleidyddol yng Ngymru yn torri'n raddol, ond mae'n amlwg fod y nos yn dal yn llygaid llawer ohonom ni Gymry Cymraeg Caerdydd o hyd.

# Lloches i Wragedd

**Efallai y clywodd rhai ohonoch sôn yn ddiweddar y bydd ail loches i wragedd yn agor yn y Barri cyn bo hir, gan fod cymaint o bwysau ar y lloches wreiddiol yng Nghaerdydd. Ond tybed a olygodd y ffaith foel honno ryw lawer i chwi'i bwy y bwriedir y llochesi, ac a oes mewn gwirionedd angen amdanynt yn yr ardal hon?**

Llochesi ydynt i wragedd sydd yn cael eu curo gan eu gwŷr, a gellir gweld fod angen dybryd oddi wrth y ffigurau. Ers mis Awst, pan agorodd lloches Caerdydd, mae 30 o wragedd, a chyda hwy 67 o blant, wedi treulio amser yno. Cafwyd dros gant o ymholiadau, a gorfu i'r grŵp wrthod 14 o wragedd am nad oedd digon o le iddynt yn y tŷ.

Mae'r arfer o guro'r wraig wedi bod yn destun sbort ers canrifoedd, ond nid jôc yw profiad y gwragedd hyn ond hunllef. Cânt eu hanafu yn y dulliau mwyaf creulon, hyd yn oed pan fyddant yn feichiog, ac mae'r sefyllfa yn parhau ac yn gwaethygu am nad oes ganddynt obaith o adael. Mae gwraig â phlant bach ganddi yn gaeth iawn. Ni all adael y plant a dianc ei hun, ac ni all gymryd y plant gyda hi heb gartref arall i fynd iddo. Yn aml mae cyfeillion a pherthnasau yn byw mewn tai cyfyng eu hunain ac yn anabl i roi cartref iddi. Dylwn bwysleisio yma fod y broblem yn codi ym mhob dosbarth cymdeithasol, nid mewn un grŵp yn unig.

Mae'r wraig yn unig iawn hefyd. Mae'r cymdogion yn tueddi i gredu mai ei bai hi yw'r sefyllfa, ei bod yn haeddu'r grasfa. Mae arni ofn mynd at yr heddlu, ac hyd yn oed os gwna hi, maent hwythau'n gyndyn iawn i ymyrryd mewn 'cweryl teuluol'.

Bwriad sefydlu'r lloches oedd rhoi cyfle i'r gwragedd hyn i ddianc o'u cartrefi gyda'u plant, i gael heddwch i benderfynu beth sydd orau i'w wneud heb ofni ymateb eu gwŷr. Cedwir cyfeiriad y lloches yn gyfrinachol am y rheswm hwn, a rhif ffôn sydd gan weithwyr cymdeithasol ac ati. Am y tro cyntaf maent yn cwrdd â gwragedd eraill sydd wedi profi'r un bywyd ac sydd yn cydymdeimlo o ddifrif. Gallant benderfynnu cynnig am dŷ cyngor, neu ddwyn achos ymwahanu neu ysgariad, neu gael 'injunction' i feddiannu'r cartref. Neu mae rhai ohonynt yn mynd yn ôl at eu gwŷr a'r berthynas wedi newid gan fod y wraig yn awr yn fwy annibynnol. Mae'r grŵp yn cynnig help gyda materion cyfreithiol a nawdd cymdeithasol ond y wraig sydd yn penderfynu popeth drosti ei hun.

Erin Pizzey a welodd yr angen am lochesi gyntaf, ac agorodd dŷ yn Chiswick yn Llundain. Cyn hir 'roedd y tŷ yn orlawn a gwragedd yn cyrchu iddo o leoedd mor bell i ffwrdd â Glasgow. Erbyn hyn mae dros drigain o lochesi dros Brydain i gyd. Yng Nghymru mae llochesi yn Wrecsam, Bae Colwyn a Chasnewydd, a bwriedir agor rhai yng Nghwm Ogwr a Merthyr. Ffurfiwyd grŵp yng Nghaerdydd ac yn Chwefror 1975 rhoddodd cyngor Caerdydd dŷ at y swydd. Erbyn mis Awst 'roedd popeth yn barod ac agorwyd y lloches.

Mae dirfawr angen am dri pheth yn awr. Yn gyntaf, mae angen mwy o le. Ar unrhyw adeg, mae o leiaf bump o wragedd a thri ar ddeg o blant yn y tŷ, sydd ond yn dŷ teras tair llofft. Bydd y tŷ yn Y Barri yn help yn hyn o beth ond bydd angen am le yng Nghaerdydd o hyd. Ni ddylem orfod gwrthod unrhyw wraig sydd yn gofyn am help. Yn ail, mae angen arian i dalu gweithiwr amser llawn. Mae pawb yn gweithio'n wirfoddol ar hyn o bryd ond mae hyn yn cyfyngu ar yr help y gallwn ei roi. Ac yn drydydd, a dyma'r peth mwyaf pwysig, mae angen i bawb ohonom fod yn ymwybodol o'r broblem, i sylweddoli nad rhywbeth y gellir ei anwybyddu yw dioddefaint fel hyn, ond craith ar wyneb cymdeithas.

G.M.A.

GORFFWYSWCH – YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

(Perchennog J.M. Crookes)

Cerbydau moethus gyda 20-51 o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU : FFÔN CAERDYDD 31174

(Gwasanaeth ateb pedair awr ar hugain)

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE, CAERDYDD.

## AGOR ORIEL NEWYDD

Agorwyd oriel barhaol newydd o Gofgolofnau Cristnogol cynnar Cymru yn Adran Archaeolegol yr Amgueddfa Genedlaethol ddydd Sadwrn Ebrill 24ain. Cofgolofnau cerrig yw'r rhain a oroesodd 700 mlynedd o hanes cyffrous ein cenedl. Buont ar wasgar mewn gwahanol adrannau o'r Amgueddfa am flynyddoedd; yn awr, wele eu casglu at ei gilydd am y tro cyntaf i ffurfio arddangosfa rymus dros ben.

*CYDNABYDDIAETH*

*Dylid fod wedi nodi mai gan Cen Williams yr oedd y lluniau ar dudalennau 1, 3 a 12 yn y rhifyn diwethaf.*

# Ein Gohebydd yn Rwsia

**Ar y 4ydd o Fai, daliodd Mair Owen o Gaerdydd y tren o Ostend a fyddai'n ei chario ar hyd y rheilffordd hanesyddol drwy Berlin a Warsaw, ymlaen i Minsk a Smolensk i ben ei thaith ym Moscow. Derbyniodd Mair un o'r Ysgoloriaethau a gynigir gan Gyngor y Celfyddydau i gyfieithwyr, ac o ganlyniad i hynny, y mae'n bwriadu treulio'r tri mis nesaf yn Rwsia yn cyfieithu barddoniaeth a straeon byrion o'r Rwsieg i'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld ffrwyth ei gwaith.**

Fe fydd hi'n treulio pythefnos yn teithio o gwmpas Rwsia yn westai i Undeb Awduron yr Undeb Sofietaidd. Yn ystod y daith honno, bydd yn ymweld â llefydd mor bell oddi wrth ei gilydd â Talinn yn Estonia, yr hen brifddinas imperialaidd, Leningrad, a Tbilisi, prifddinas Georgia, i lawr yn nyfnderoedd y de.

Fe fydd yr Undeb yn trefnu iddi gwrdd â beirdd a llenorion Rwsia, ac eisoes cafodd wahoddiad i gymryd rhan yng Ngŵyl Pwshcin a gynhelir ym Moscow o'r ail hyd y 9fed o Fehefin.

Mae'r daith hon i Rwsia yn cyflawni un o uchelgeisiau mawr Mair, sy'n 25 mlwydd oed ac a raddiodd mewn Rwsieg a Saesneg yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth. Ym Methesda, Sir Gaernarfon y mae cartref y teulu, ond bu Mair yn Llundain yn astudio am flwyddyn cyn dod i fyw yng Nghaerdydd, a gweithio fel Cynorthwydd Ymchwil i Gwyn Erfyl gyda Theledu Harlech. Bydd yn dychwelyd i'r swydd hon ym mis Awst, ond gobeithia gael cyfle i dreulio llawer mwy o amser yn Rwsia yn y dyfodol.

Mae'n siwr mai'r *Dinesydd* yw'r unig bapur bro a all hawlio fod ganddo bellach Ohebydd Arbennig ym Moscow! Edrychwn ymlaen yn fawr at gyhoeddi adroddiadau gan Mair yn y rhifynnau nesaf.



*MAIR OWEN*

**Oriel**

**53 Heol Siarl Caerdydd**
**Teliffon: 0222 395548**

## Cyhoeddiadau newydd "Gregynog"

Mae'r canlynol, sy wedi'u cyd-gyhoeddi gydag Arddangosfa Gwasg Gregynog, yn awr ar gael yn ORIEL.

1. ARGRAFFU YNG NGREGYNOG: Agweddau ar Wasg Breifat Enwog
   Clawr meddal 95c
   Clawr Caled £2.75
2. CARDIAU. Cardiau cyfarch, dwy gyfres.
   4 x 4 Lliw, gan Robert Maynard 12c yr un
   6 x 8 Du a gwyn, gan Reynolds Stone a Robert Maynard 12c yr un

## Record Newydd!

Y gyntaf ar label ORIEL
"PRYDERI AND HIS PIGS" Pris £2.00

## Digwyddiadau Awr-Ginio

Dydd Iau, Mai 18fed
ROGER MCGOUGH y bardd
1.00p.m.–2.00p.m.

Croeso i Bawb

**Sain**

**Dwy record hir newydd:**

(Sain 1037D) *LEAH* — caneuon gwreiddiol a thraddodiadol gan Leah Owen

(Sain 1035D) *CLWT Y DDAWNS 1* — casgliad o alawon ar gyfer dawnsfeydd gwerin, dan nawdd Cymdeithas Ddawnsio Gwerin Cymru. Y gyntaf o'i bath!

**ALLAN DDIWEDD MAI —**

*Mae'r Darnau yn Disgyn i'w Lle* (Sain 1045D) — record hir newydd DAFYDD IWAN
Archebwch hi'n awr!

SAIN (Recordiau) Cyf., Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.

# PRYDERI & HIS PIGS


**Y mis diwethaf, ymddangosodd y record gyntaf ar lab label "Oriel" (Cyngor Celfyddydau Cymru): perfformiad byw gan *Pryderi and His Pigs* yn yr Arena, Theatr Sherman.**

Mae'r grŵp hwn newydd ddychwelyd o'i ail daith lwyddiannus yn America, a hawdd dychmygu apêl y plethiad clyfar o ryddiaith, cerdd a chân Gymraeg a Chymreig i'r Cymry ar Wasgar gan fod y detholiad, mewn llawer ffordd, yn cadarnhau'r farn hiraethus am Gymru a berthyn i'r rheini na sy'n byw yn y wlad eu hunain.

Niwlog yw'r darlun a gawn o'r Gymru gyfoes; er enghraifft, cawn sawl darn sy'n dychanu'r capeli — difyrrwch dyddiau a fu erbyn hyn, does bosib'Nid yw hyn, fodd bynnag, yn feirniadaeth ar ddawn a sglein broffesiynol y cwmni Mae Olwen Rees, yn enwedig, yn fawr ei hapêl gyda'i datganiadau hyfryd o ganeuon gwerin traddodiadol, ond trueni fod rhai aelodau eraill o'r cwmni fel pe baent yn teimlo fod barddoniaeth ddwys ei natur yn gofyn am lais "darllen barddoniaeth" artiffisial, sy'n golygu aberthu ystyr y geiriau mewn llawer man i sŵn y llais.

Serch hynny, mae llawer o'r perfformiad hwn yn ddifyr ac yn ddoniol — hyd yn oed a derbyn mai math diogel a chysurus o adloniant yw hwn sy'n troedio'r un hen lwybrau cyfarwydd yn hytrach na thorri tir newydd.

MS. BLODYN



CARTHFFOSIAETH

# Colofn sbectol * SIAN

## ...TYRD YN D'ÔL

Nid peth newydd yw gweld gostyngiad i blant a phensiynwyr ar bosteri yn hysbysebu cyngerdd neu ddrama ond clywais fod Theatr Gwynedd wedi ychwanegu "and unemployed" ar bosteri un ddrama sy'n ymddangos yno yn fuan — ewch yno dros fryn a Dole!

## ...GORAU CYMRO

Trafaelodd Gareth Miles filltiroedd dros fryn a dôl i ymgymryd â'i swydd newydd fel Ysgrifennydd Gweinyddol UCAC. Pob llwyddiant iddo a gobeithio y gwelwn gynnyrch ei ddawn yn ymddangos ar dudalennau'r *Dinesydd* cyn bo hir.

## DWY LAW YN ERFYN

Cofia ddod â bwcedaid o ddŵr hefo chdi, Gareth! Mae'n debyg nad oes ganddo ef ateb i'r broblem ddiffyg dŵr, ond roedd hi'n ddiddorol gwrando ar y newyddion yn argymell pawb i gael bath gyda ffrind i arbed dŵr.

Ychydig yn ddiweddarach clywais raglen radio gyda Ryan Davies yn gofyn am ei hoff ganeuon. "Hon fydda'i'n ei chanu yn y bath," meddai, wrth ofyn am ddeuawd o waith Bizet. Ie, deuawd! Tybed a oedd Ryan wedi clywed y newyddion hefyd?

## DONYT FFORSÊC MI, O MAI DARLIN

Pan fyddwch yn mynd i Steddfod yr Urdd, cofiwch brynu pob afal, banana, ci poeth a chornet a welwch. Eleni, Pwyllgor Rheoli Canolfan yr Urdd, Caerdydd a fydd yn gyfrifol am werthu'r holl ddanteithion hyn — a mwy! 'Tydy hi'n braf meddwl fod pob afal neu gornet a brynir yn golygu 'chydig o geiniogau ychwanegol i'r Urdd ac nid i Gwmni masnachol tu draw i Glawdd Offa. Golyga hyn lawer o waith i aelodau Caerdydd, ond gobeithio y bydd yr holl ymdrech yn dwyn ffrwyth. Clywyd si fod pobl yn dechrau ciwio am y donyts yn barod.

## BETI'N WNEUD?

Sori Beti George, dim donyts i chi ar ôl clywed am eich ymdrech i gadw'n heini hefo'r hogia ar nos Lun. Fel y dywedodd un gŵr, "Does dim llawer o newid yn y dosbarth ei hun, ond mae'r showyrs yn fwy diddorol!" Pasia'r sebon cariad!

## TRI CHYNNIG I GYMRO

Oes 'na rywun yng Nghymru sy heb drio am y swydd o Gyfarwyddwr Gwasg Prifysgol Cymru erbyn hyn? Maen nhw'n hysbysebu'r swydd am y trydydd tro nawr, felly brysiwch, da chi, os nad ydych wedi rhoi cynnig arni eto. Neu hwyrach mai'r syniad yw gorfodi'r trueniaid a fu drwy'r ddwy rownd gyntaf i ddal ati — i brofi fod ganddynt y stamina ar gyfer y fath barchus arswydus swydd. Sut bynnag, gobeithio y cawn weld y mwg yn pwffian o simne Gwasg y Brifysgol yn ystod y dyddie nesa 'ma — neu "Cym bac Brinli, ol is fforgifyn" fydd hi!

**Ysgol Feithrin Rhiwbeina CYNGERDD Neuadd Reardon Smith, Mai 22, 7.30p.m.**

Cantorion Ardwyn
Richard Rees, Bass
Iwan Davies, Tenor
Lisa a Gwyn Erfyl, Penillion

# Yr Ysgolion Meithrin

Dyma fis arall wedi mynd heibio a phawb wedi cael cyfle i ymlacio a gorffwys dros y Pasg. Ond buan y daeth hi'n amser i ymroi at waith unwaith eto.

Dal i ymgodymu â phroblemau digon dyrys yr ydym fel mudiad yn Ne Morgannwg. Anodd derbyn y sefyllfa nad oes, er troi pob carreg, adeiladau addas i Gylch Meithrin ar stadau newydd fel Llanedeyrn a Phentwyn — a ninnau'n ymwybodol bod yno filoedd o deuluoedd ifanc y gallesid cenhadu yn eu plith.

Ar stadau hyn fel Llanrhymni mae hi'n fwy gobeithiol. Ond och! Aeth fy nghestyll yn gandryll i gyd! Wedi cryn ymdrech daeth y gair ASBESTOS i'r newyddion — a'r ysgol gyntaf i'w chau: Pen y Bryn, Llanrhymni, lle'r arfaethwn agor cylch yn fuan! Cafwyd cyfarfod cyhoeddus yno ryw fis yn ôl — fy nghyfarfod cyhoeddus cyntaf. Gyda braw y mentrais i mewn i'r neuadd lle'r oedd cadeiriau wedi'u gosod yn barod a chadair a bwrdd i minnau ar y llwyfan. Gan y gwyddwn mai yn yr iaith fain y byddai'n rhaid i mi siarad, paratoais lith yn ofalus gan nodi mai'r peth cynta i'w wneud fyddai i'r "dorf" ethol pwyllgor a swyddogion. Er dosbarthu llu o bosteri a phamffledi, dwy fam yn unig a ddaeth! Roeddwn yn ddiolchgar i'r ychydig Gymry a ddaeth efo mi ac i Mr Hywel D. Roberts am ddod yno fel siaradwr gwadd.

Y cam nesa oedd canfasio o ddrws i ddrws. Rhaid cyfaddef bod gen i arswyd mynd o ddrws i ddrws — ond diolch i bobl fel Owen John Thomas, Cen Williams a Sian Piper am ddod yn gwmni ac yn gefn i mi. Cafwyd ymateb digon calonogol y noson honno. Diddorol yw nodi i un o'r canfaswyr siarad â thad a swniai'n frwdfrydig iawn; wedi iddo bwysleisio wrth y tad mai cylch Cymraeg fyddai, atebodd hwnnw, "Oh, we've got all Max Boyce's records — they know a bit of Welsh — sing 'Aso aso iwgo shi' to the man!"

Anodd ar hyn o bryd yw rhagweld fy ngham nesa yn Llanrhymni heb wybod eto am ba hyd y bydd Pen y Bryn ar gau.

Pleser yw son am amryfal weithgareddau yn y gwahanol gylchoedd. Yn ystod Ebrill bu Twmpath Dawns, Disco, ymryson sgitlau ac ambell i Ffair Sborion. Ar yr 22ain o Fai cynhelir cyngerdd gan Gôr Ardwyn, Richard Rees, Iwan Davies a Gwyn a Lisa Erfyl yn Theatr Reardon Smith a'r elw i Gylch Meithrin Rhiwbeina. Ga'i eich atgoffa hefyd am y noson er budd y Mudiad yn genedlaethol a gynhelir o dan y teitl "Wedi'r Oedfa" yn Theatr Sherman am 8.00p.m. nos Sul y 9fed o Fai. Cymerir rhan gan Rachel Thomas, Menai Davies, Pedwarawd y Wenallt, Wyn Davies, Dafydd Idris, Cefin Roberts a'i barti, Dr Meredydd Evans a minnau. Hyderwn y bydd yno rywbeth at ddant pawb.

Wrth gloi dyma grybwyll eto y broblem o gael athrawon. Un ymateb yn unig sydd wedi dod i'm cais am athrawon sy'n barod i weithio mewn Cylch Meithrin. Heb ymhelaethu a chrefu eto — ga'i ddwud "Melys moes mwy"?

SHÂN EMLYN




**Bydd y rhifyn nesaf o'r *Dinesydd* yn ymddangos ar Fehefin 4ydd. Deunydd ar gyfer y rhifyn hwnnw erbyn MAI 24ain fan bella, os gwelwch yn dda. Danfoner at: Golygydd *Y Dinesydd*, 66 Heol Maendy, Cathays, Caerdydd.**

## CALENDR MAI-MEHEFIN

**MAI**

**9** Mudiad Ysgolion Meithrin WEDI'R OEDFA Noson o ganu gwerin, canu penillion a barddoniaeth. Theatr Sherman 8.00p.m.

**13-15** Theatr yr Ymylon POBL YR YMYLON gan Idwal Jones. Yr Arena, Theatr Sherman 8.00p.m.

**15** Cor Unedig Eglwysi Cymraeg Caerdydd OFFEREN YN B LEIAF Bach. Eglwys y Tabernacl, Caerdydd 7.30p.m.

**15** Urdd Gobaith Cymru MIRI MAESTEG Noson Bop anferthol. Neuadd y Dref, Maesteg 5.00p.m. ymlaen.

**21-22** Cwmni Theatr Cymru BYW YN Y WLAD Rifiw newydd a bywiog. Yr Arena, Theatr Sherman 8.00p.m.

**22** Ysgol Feithrin Rhiwbeina CYNGERDD gyda Chantorion Ardwyn, Richard Rees (Bass), Iwan Davies (Tenor), Lisa a Gwyn Erfyl (Penillion). Theatr Reardon Smith 7.30p.m.

**28** Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol, Caerdydd. Y Ddarlith Flynyddol ENWAU PERSONAU YNG NGHYMRU Dr Thomas Parry. Yr Arena, Theatr Sherman 7.00p.m. Tocynnau: £1 (gan gynnwys swper penglin).

**MEHEFIN**

**12** Cylch Meithrin Llysfaen NOSON GYMDEITHASOL Neuadd Gymdeithasol Llanedeyrn 8.00p.m.

**26** Urdd Gobaith Cymru DONIAU'R URDD Rhaglen amrywiol yn cynnwys rhai o fuddugwyr Porthaethwy. Theatr Reardon Smith 7.00p.m. Yr elw at Ganolfan yr Urdd, Heol Conwy.

## Stori Fer

# Y TEIPIADUR

**Hoffwn son wrthych am brofiad rhyfedd a gefais ychydig wythnosau yn ôl. Tra oeddwn ar fy nhaith hyd un o heolydd llai hysbys y ddinas, gwelais deipiadur ar werth mewn siop fach fudr, a'r pris — teirpunt. Rhuthrais i mewn i'r siop a gofyn a gawn ei brynu.**

**"A phleser" ebe gŵr y siop, pan ofynnais iddo. Telais yr arian, a holi beth oedd o'i le ar y peiriant ei fod mor rhad. Nid atebodd y siopwr yn syth, ond cyn hir meddai, "O, dim, dim," a chwarddodd yn nerfus.**

**Es allan o'r siop yn fwy chwilfrydig nag oeddwn pan es i mewn.**

Rhyw dridiau'n ddiweddarach, roeddwn yn barod i setlo'n gyffyrddus o flaen yr ymbelydrydd (neu redietor yn Gymraeg) i wrando ar I.B. yn cyflwyno detholiad o'ch hoff bregethwyr a phrifeirdd yn disgrifio eu teithiau drwy'r America pan glywais ryw sŵn clepian rhyfedd yn dod o'm stydi. Rhedais i mewn i weld beth oedd yn digwydd, a gwelais fod fy nheipiadur wrthi'n sgwennu heb neb yn ei weithio!

Es ato'n syth, a dyma a welais yno:

"Helo, helo! Mae'r teipiadur hwn yn deipiadur seicig. Y mae yn derbyn negeseuon o'r byd ysbrydol. Y mae hefyd yn gallu cyfieithu i'r iaith Gymraeg, gan ei fod wedi bod yn perthyn i'r *Welsh Office* (sic). A hoffech chi gysylltu â rhywun o'r byd ysbrydol? @£-&'?"

Yn y man yma, pallodd y peiriant, ac wedi amser hir, ailgychwynnodd.

"Mae'n ddrwg gan y peiriant am yr hyn sydd newydd ddigwydd, ond mae llawer o *interference* ar y lefel ysbrydol ar hyn o bryd. Mae'n ddrwg iawn gan y peiriant unwaith eto, ond ni fydd yn bosibl i chwi siarad â'r sawl y dewiswch, ond fe drefnir rhywun."

Es at y teipiadur, a sgwennu ar y papur: "A fyddai hi'n bosib cael rhywun i roi cyfweliad i'r *Dinesydd*?"

"Mae'r peiriant wedi dod o hyd i rywun ond mae'n mynnu siarad Cymraeg efo chi — heb gymorth y peiriant."

"Pwy ydy o?"

"Harri'r Wythfed."

"Dew" meddyliais, "sgŵp!"

Dyma'r teipiadur yn cychwyn arni eto:

"Helo, helo? Chi'n gallu clywed fe? Fi yw Harri'r Wythfed. 'Roedd taid fi'n siarad Gymraeg, ond fi wedi looso-y-colli fe."

Yr un hen stori — y Cymry Llundain 'ma. "Gaf i ofyn i chi, Mr Wythfed, sut brofiad oedd hi i gael chwech o wragedd?"

"Oedd fi'n thinko bod chi mynd i gofyn cwestiynau, nid gofyn am private life fi!"

"Ond dyna beth mae pobl Cymru eisiau gwybod amdano — eich bywyd preifat chi."

"Beth! Chi ddim moin...o, jawl fi gofyn i'r typwriter translatio... Onid oes eisiau gwybod arnoch am fy ngweithrediadau pwysicaf i, beth am ffurfio Eglwys Loegr, neu chwalu y mynachlogydd, neu..."

# Gwrthod cais am Ysgol Feithrin

Gwrthodwyd cais a wnaethpwyd yn ddiweddar gan swyddogion y Mudiad Meithrin am sefydlu Ysgol Feithrin yng Ngholeg Cyncoed. Mae ystafell fabanod, gyda'r holl gyfarpar, yn bod yn y coleg eisoes; daw plant i mewn i'r coleg i ddysgu darllen, a gobeithir sefydlu cwrs gradd mewn addysg feithrin yn y dyfodol agos.

Cytunai awdurdodau'r Coleg ei hun â'r syniad, ond fe'i gwrthodwyd gan y Pwyllgor Addysg yn y pen draw. Yn wyneb sylwadau Shân Emlyn yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd* ar anhawsterau sicrhau llefydd addas er cynnal ysgolion meithrin, ymddengys hyn yn drueni mawr; mae'n debyg y byddai ysgol yn y fan hon wedi gallu gwasanaethu stâd fawr newydd Llanedeyrn yn ogystal â Chyncoed ei hun.

Yn anffodus, doedd y Pwyllgor Addysg ddim yn teimlo mai doeth fyddai cymysgu plant a myfyrwyr yn yr un adeilad. Rhyfedd hefyd, ag ystyried y bydd y myfyrwyr hyn yn athrawon cyn bo hir, yn treulio'u bywyd beunyddiol yn yr un adeilad â channoedd o blant!

# CÔR MEIBION Y BARRI



*Un o'r chwech o gorau a fydd yn canu yng nghyfres newydd HTV Cymru 'Musket, Fife and Drum' fydd Côr Meibion y Barri; fe'u gwelir ar y sgrin ar Fehefin 24ain. Thema'r gyfres yw caneuon rhyfel a gwrthryfel, a bydd gwŷr y Barri yn canu hoff alawon y Rhyfel Byd Cyntaf yng nghwmni'r unawdydd Edward Byles. Cyflwynydd: Gerwyn Morgan.* Llun Teledu Harlech.

## DIOLCH

Carai'r Bwrdd Golygyddol gydnabod yn ddiolchgar gymorth ariannol Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

# Y TEIPIADUR

"Na mae'n ddrwg gen i. 'Rwy'n siwr eu bod nhw'n bwysig, ond 'dydyn' nhw ddim yn ddiddorol."

"O, o'r gorau, te. Hmm, gwragedd. Ym... dydw i ddim yn gallu cofio dim amdanyn' nhw... 'wnes i ddim eu cadw nhw'n hir wyddoch chi. Mae ffasiwn yn newid efo'r amserau.

"Ond 'does bosib eich bod wedi anghofio am Anne Boleyn?"

"Pwy? O, ie. Hi oedd y bedwaredd ynte. Na 'dydw' i ddim yn cofio llawer. 'Roedd hi ychydig bach allan o ddyddiad.

"Y?"

"*Out of date* — ond mae hyn yn anniddorol. Hoffech chi wybod amdanaf yn cychwyn llynges?"

"Na, na. Does gan fy narllenwyr ddim diddordeb mewn hynny. Beth am eich sannau — pa liw ydyn 'nhw? Neu beth yw eich hoff fwyd brecwast — *Sugar Puffs* neu bacwn ac wy? Neu pa mor aml fyddwch chi'n newid eich Fest, neu..."

"Taw y taeog! Nid oes a fynnwyf i â'th *Ddinesydd*, na'th sugar puffs, na'th fest! Beth sydd wedi digwydd i ddyn fel nad oes iddo ddiddanwch ond mewn helyntion priodasol ac arferion bwyta a glendid pobl eraill! Genhedlaeth gwiberod, sydd yn siarad â gwenwyn ar ei thafod..."

Ar hyn, dyma'r teipiadur yn peidio, ac fe'm harbedwyd rhag gwrando neu ddarllen yn hytrach, mwy o'i eiriau.

Mae fy nheipiadur yn fud ers hynny — credaf fod y straen o gyfieithu bratiaith Harri a'r tarfu cyffredinol ar y lefel ysbrydol a achoswyd gan ysbrydion pobl papur-newydd (yn cwyno am fod Harri wedi torri ar eu monopoli) wedi cael effaith ddwys ar y peiriant. Trueni.


RHIFEDDODAU




Addysg, ac Adloniant
ar eich sgrin
bob dydd Mercher
4.25p.m.

HTV CYMRU WALES

# NEWYDDION

## GWELLHAD BUAN

Dymuniadau gorau ar ein rhan ni oll i Mrs Bethan Roberts, Radyr, gan obeithio y caiff hi adferiad buan a llwyr o'r anhwylder sydd wedi bod yn ei phoeni yn ystod yr wythnosau diwethaf.

## PAPUR BRO ARALL

Croeso i'r *Barcud*, y diweddaraf o bapurau bro newydd Cymru, newyddiadur sydd yn gwasanaethu Tregaron a'r cylch. Brodor o Gaerfyrddin yw Richard Huws, y Golygydd, Pleidiwr brwd a gweithgar dros ben sydd ar staff y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth ac sydd wedi ymgartrefu yn Nhregaron bellach. Pob hwyl iddo ar y gwaith — a gobeithio y deil *Y Barcud* i hedfan yn uchel am flynyddoedd lawer.

## COLLI CYFAILL

Ar y 23ain o Ebrill, yn ddisyfyd, daeth i ben deithio byd y diweddar frawd E. Tegid Griffiths. Brodor o'r Bala ydoedd a daeth i Gaerdydd rai blynyddoedd yn ôl wasanaethu bysiau'r Gorfforaeth. Yn ddiweddarach, a hyd ei farw, roedd yn aelod o staff Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan. Yn ei ddyddiau cynnar, bu'n gweithio yn Swyddfa'r Post yn Llanuwchlyn, lle'r oedd ei dad yn gwasanaethu fel crydd y pentref. Er yn ddibriod, roedd yn berchen tŷ yma ac wrth ei natur garedig rhoddai loches i amryw grwydryn yno o dro i dro. Bu'r angladd yn y Fynwent Newydd, Llanuwchllyn, a wasanaethwyd gan Y Parch. Huw Jones, Y Bala. Roedd Mr Trefor M. Owen, y Curadur, Y Prif ofalwr, Mr Eurfyl Lewis ac amryw o'i gydweithwyr yn cynrychioli'r Amgueddfa ac yn talu'r gymwynas olaf iddo. Estynnwn ein cydymdeimlad a'i fam weddw, ei chwaer a'i ddau frawd. Heddwch i'w lwch.

## GWELLA

Mae ei llu cyfeillion yn falch fod Mrs Mair Williams, 288 Whitchurch Road ar ei thraed eto ar ôl cyfnod yn ei gwely yn Ysbyty'r Waun. Myfyrwraig yn yr ysbyty yw Mrs Williams a phan oedd yn dilyn ei chwrs fe lithrodd disg yn ei chefn. Mae'n cwblhau ei chwrs yn yr ysbyty eleni. Rhaid ei llongyfarch hefyd ar ennill gwobr arbennig am draethawd meddygol a recordiai ei hastudiaeth o briodasau ac anhwylderau sipsiwn. Cafodd ei gwobr yn Portmeirion, Gwynedd.

## SWPER CROESO

Nos Iau, Ebrill 29, cynhaliwyd swper croeso i'r ficer newydd (Y Parchedig Leslie Evans), Mrs Evans a'u teulu yn neuadd eglwys Dewi Sant. Gan fod dyfodiad y ficer a dathliadau Gŵyl Ddewi ymron yn cydredeg, penderfynwyd gohirio'r swper Gŵyl Ddewi arferol a chynnal y noson groeso yn lle hynny. Fel arfer, roedd y gwragedd wedi ymateb yn hael ac roedd y byrddau'n llawn. Cafodd pob un a oedd yno noson i'w chofio ac edrychir ymlaen at gyfnod o fugeilio llewyrchus.

## HENFFYCH — A HWYL!

Croeso i Gareth Miles i Gaerdydd i ymgymryd â'i swydd newydd yn Ysgrifennydd Gweinyddol i UCAC — mawr obeithiwn y bydd ef a'i deulu yn hapus iawn yma. Ar yr un pryd, gair o ddiolch diffuant i'r gŵr sy'n ymadael â'r swydd hon, sef Eric Evans, a gyflawnodd waith anferthol o ran maint a gwerth ar ran yr Undeb dros y blynyddoedd diwethaf. Can diolch iddo, a phob hwyl yn ei swydd newydd.

## Pedoli, Pedoli...

Erbyn hyn, yn ychwanegol at grefftwyr eraill Amgueddfa Werin Cymru, gellir gweld gof wrth ei waith yn Sain Ffagan. Mae Geraint Davies, o Ddyfed, wedi bod yn gweithio yn yr Amgueddfa ers rhyw ddeufis ac y mae wrthi'n brysur yn ei efail bob dydd o'r wythnos.

## Y DDARLITH FLYNYDDOL

Mae un neu ddau o docynnau ar ôl ar gyfer Darlith Flynyddol yr Adran Efrydiau Allanol, gan Dr Thomas Parry. (Gweler y Calendr.) Cysyllter â Dr Meredydd Evans, Adran Efrydiau Allanol, 39 Park Place, Caerdydd.

## GWOBR I GERBYDAU'R WENALLT

Enillodd Mr John Crookes o Benarth wobr "Gyrrwr y Flwyddyn" yn ddiweddar yn yr 22ain Rali Gerbydau Brydeinig.

Bu'n rhaid i John Crookes, perchennog Cerbydau'r Wenallt, gymryd rhan mewn prawf gyrru a *Concourse d'Elegance* ar y 24ain a'r 25ain o Ebrill.

Dywedodd John, sy'n 29 wrth ein gohebydd: "Cymerodd 88 o gerbydau ran yn y gystadleuaeth ac fe dderbyniais i'r cwpan am Yrrwr y Flwyddyn yn yr adran i gerbydau mini-midi, sef cerbydau â hyd at 35 o seddau. Roeddwn yn arbennig o falch am mai dim ond ail ymgais CERBYDAU'R WENALLT oedd hon."

Mae rhieni John yn byw yn Rhiwbeina lle bu ef ei hun yn byw am naw mlynedd nes iddo briodi. Mae ei dad yn weithgar yn y cwmni hefyd, a ddechreuwyd gan John ym 1970.

## CRONFA'R EISTEDDFOD

**Mae'n siwr bydd llawer ohonoch am gyfrannu i Gronfa Eisteddfod yr Urdd, Y Barri a'r Fro. Y cyfeiriad ar gyfer pob cyfraniad yw: Mr Desmond Perkins, Banc y Midland, 33 Holton Road, Y Barri. Llawer o ddiolch.**

## TEGID O'R BALA

Gofalwr oeddit yma yn gwylio ar ein rhan
Greiriau gwerthfawr Cymru, ddaeth yma o bob man.
Gofalwr oeddit gartref am anffodusion byd,
A lloches roddaist dro i dro i geisio'u gwneud yn glyd.
Mae rhan i bawb ei chwarae wrth greu y patrwm mawr
O fywyd a chymdeithas tra'n llwybro yma'n awr.
Mor anhawdd ydyw deall cyfanwaith byw a bod.
Dy garedigrwydd gwylaidd fu'n nodwedd ac yn nod,
A'th gipio oddi wrthym sy'n les fel pawb a wyr.
Bydd melys gof amdanat; ffarwel, ond nid yn llwyr.

GOFALWR ARALL




## CASTELL CAERDYDD

Pan ddaw'r haf, a phetrol yn ddrud; cewch gipolwg ar hanes Castell Caerdydd, sy'n ymestyn dros bedair canrif ar bymtheg.
GYDA'R BWS — HEB FFWS.

# DRAMAU

## Equus

*Argraffiadau Wynne Lloyd o ddrama enwog Peter Shaffer, EQUUS a welodd yn Llundain yn ddiweddar. Fe fydd cyfle i weld y ddrama hon (cynhyrchiad gwahanol gyda Michael Jayston) yn y Theatr Newydd, Caerdydd rhwng Mai 10-15.*

Wrth i'r chwarae fynd yn ei flaen deallwn mai stafell seiciatrydd ydy'r rostrwm ar y llwyfan agored o'n blaenau, ac yma mae popeth o bwys yn digwydd dan bwll o oleuni oddi uchod. Pan ddaw'r ddrama hon ar daith mynnwch gyfle i'w gweld hi gan ei bod hi'n agor cymaint o ddrysau ar y natur ddynol a hynny mewn dull dramatig theatrig ar lwyfan sy'n syml a diaddurn.

Mae'r stori'n cael ei graddol ddatgelu wedi'r olygfa fud gynta lle mae llanc ifanc a phen ceffyl ynghlwm â'i gilydd. Yna, mae'r seiciatrydd yn dechrau adrodd yr hanes.

Mae'n arbenigo ar gyflwr llencyndod ac mae e'n cytuno, yn anfoddog ar y dechrau, i dderbyn y llanc i'w ofal. Pan ddaw'r wyneb yn wyneb â'i gilydd am y tro cyntaf y cyfan wnaiff y llanc ydy canu rhes o jingls masnachol. Ateb i bob cwestiwn ydy jingl. Wrth flingo haenen ar ôl haenen oddi ar gnawd y sefyllfa fe ddaw'r esgyrn i'r golwg.

Drwy gyfrwng cyfres o olygfeydd ail-fyw fe ddaw'r seiciatrydd, a ninnau, i ddeall ychydig ar gyflwr y llanc — ei fagwraeth gan rieni orawyddus ac ystrydebol. Ei brodiad emosiynol mawr cyntaf oedd pan edrychodd i fyw llygaid ceffyl ac effaith hynny arno. Er iddo gael bywyd undonnog gan fynd o'r ysgol i weithio mewn siop drydan roedd yr unig gyffro yn ei fywyd wedi'i ymgorffori mewn ceffyl. Achos ei ddwyn i ofal y seiciatrydd oedd iddo rwygo llygaid chwech o geffylau a cheisio'r eglurhad ar hyn ydy hynt y ddrama.

Erbyn diwedd yr act gyntaf, a dwy act sydd, rydyn ni wedi clywed barn eraill am y llanc — barn ei rieni; barn pennaeth y stablau yr aeth i weithio ynddyn nhw, barn y ferch a oedd yn gweithio gydag e. Ond y datblygiad mwyaf diddorol ydy perthynas y seiciatrydd â'r llanc a'r modd y daw'r llanc i ddangos i ni sut berson ydy'r seiciatrydd. O dipyn i beth fe ddaw yntau i ystyried ei gyflwr ei hun. Sut bynnag, mae'r act gynta'n gorffen yn rymus pan welir y llanc yn dwyn y ceffylau o'r stablau gannol nos i gae gerllaw ac yno mae e'n cyflawni defod o addoliad sy'n gorffen mewn ffrwydriad o ecstasi orgasmig.

Mae'r ail act yn symud ymlaen at y carthu terfynol pan ddaw perthynas y bachgen a'r ferch i'r wyneb. Unwaith eto mae'r ail-fyw'n digwydd a gwelir golygfa hynod dyner pan ddaw'r ddau'n noethlymun at ei gilydd yn y gwellt — a methu. Ar ôl y methu mae'r llanc yn troi'n ôl at y ceffyl; mewn golygfa frawychus mae e'n carthu o'i enaid ddelwedd y ceffyl a fu cymaint grym yn ei fywyd hyd yn hyn. Enillodd y seiciatrydd drwy gael y llanc i fyd normalrwydd ond collodd y llanc angerdd yn ei fywyd a'i allu i addoli a rhyfeddu — y tri pheth hyn a oedd hefyd yn rhan o wacter bywyd y seiciatrydd ei hun.

Am ei chyflwyniad digon yw dweud bod dyfeisgarwch symledd wedi ennill y dydd.

Fe ddowch allan yn gwybod rhywbeth am yr Efnisien sydd ynom pan edrychodd ar wyneb march Tudur Aled a gweld yno'r "llygaid fel dwy ellygen".

WYNNE LLOYD

## Hamlet yr Ifanc

Pur anaml y gwelwn ni berfformiad Cymraeg o ddrama Shakespeare ar lwyfan yng Nghymru, ond roedd pnawn Gwener, Ebrill 22ain yn Theatr y Sherman yn gyfle gwych i wneud yn fawr o un o'r digwyddiadau prin hynny pan gafwyd perfformiad arbennig gan Gwmni Theatr Cenedlaethol Ieuenctid yr Urdd o *Hamlet*, yng nghyfieithad J.T. Jones.

Drama braidd yn uchelgeisiol i griw o ieuenctid, meddech chi? Na — roedd safon yr actio'n uchel a'r dehongliad yn un celfydd dros ben. I unrhyw un sy'n cwyno fod Shakespeare yn anniddorol, o orfod ei astudio yn yr ysgol, byddai gweld perfformiad fel hwn yn taflu goleuni newydd ar ei syniadau. O wrando'r ddrama yma a theimlo'r naws Gymreig, gallech deimlo mai yn y Gymraeg y sgrifennwyd *Hamlet* yn wreiddiol.

Hoffais yr olygfa lle boddwyd Ophelia yn fawr am i'r cymeriadau lwyddo i greu angerdd eu colled mewn modd mor sensitif. Roedd y modd y dangosodd Laertes (Ian Gwyn Hughes) ei deimladau o golli ei chwaer drwy actio hefo'i gefn at y gynulleidfa yn rhoi naws broffesiynol i'r perfformiad. Roedd yr olygfa olaf, lle y cafwyd brwydr gleddyfol rhwng Laertes a Hamlet (Clifford Jones) yr un mor drawiadol. Ymddangosai'r ddau fel pe baent yn hen lawiau ar drin cleddyfau!

Nid oes gennyf ond lle i ganmol, am y teimlaf, ar ôl gweld y perfformiad hwn fod gobaith Cymru ar lwyfan yn lled sicr. Hyderaf y bydd perfformiadau fel hwn fydd yn parhau'r adfywiad ym mysg ieuenctid ym myd y ddrama gan arwain at sefydlu theatr gwbl Gymraeg yng Gymraeg yng Nghymru.

Pob clod i'r cynhyrchydd, Mr Emyr Edwards a'i dîm am greu gwaith more dderbyniol mewn amser mor fyr. Gresyn na fyddai mwy o seddau'r Sherman wedi'u gwerthu ar gyfer y perfformiad.

## "BYW YN Y WLAD"




*Cenfyn Evans, Valmai Jones, Gwyn Parry, Sharon Morgan a Grey Evans mewn golygfa o Rifiw Cwmni Theatr Cymru, 'Byw yn y Wlad'. Yr Arena, Theatr Sherman, Mai 21-22.*

*Llun Cwmni Theatr Cymru.*

## Rygbi

# Gair i Gloi'r Tymor

**Molawd a ddylai hon fod i Loc y Gogledd yn y Stadiwm Genedlaethol. Ond ysywaeth, nid bardd mohonof fi ac felly bydd raid talu teyrnged anfarddonol i'r rhan honno o'r dorf genedlaethol lle mae calon y genedl yn curo'n gryfaf pan fydd y pymthengwr yn y crysau coch ar y cae. Yn y fan honno mae'r gymeradwyaeth danbeitiaf, ac yn y fan honno mae'r canu mwyaf angerddol yn ddiau — "y canu di-derfyn" y soniodd yr Albanwr amdano yn ei erthygl yn rhaglen y gêm rhwng ei wlad e a ni ychydig o flynyddoedd yn ôl.**

Ie, y canu di-derfyn sy'n cyd-fynd gystal â'r gêm hon — y gic a'r cwrs a'r cefnwr arall druan yn disgwyl i'r bêl a'r dreigiau ei gyrraedd yr un pryd — ochr-gamu gwefreiddiol Gerald i gwblhau'r symudiad a chais yn y gornel — hyrddiad y blaenwyr wrth ennill meddiant o ysgarmes cyn rhoi'r bêl yn nwylo eiddgar Gareth. Parhaed felly y cyfuniad ysbrydoledig hwn rhwng lleisiau Lloc y Gogledd a gallu anghyffredin y chwaraewyr. Cofier mai Lloc y Gogledd a "arweiniodd" yr Undeb i beidio â chynnwys Anthem Lloegr o flaen y gemau'n erbyn Ffrainc, a phan fydd Lloegr yma, i ganu'r ddwy Anthem yn y drefn briodol.

Mae angen rhagor o arweiniad ar ein Hundeb hefyd. Gwarthus o beth oedd gweld mwy o Gymraeg yn rhaglen y Gwyddyl ar gyfer gêm y Goron yn Chwefror eleni nag a geir yn rhaglenni ein Hundeb ni ar gyfer y gêmau gartre. A rhaid nodi hefyd mai yn Llundain yr argreffir rhaglenni "Cymru" — ac fe'u cynhyrchir yn yr un ddinas. A pham na ddilynir Y Strade a chael Cymraeg ar fwrdd y sgoriau?

Fe fu hi'n dymor hynod gan sgorio 102 o bwyntiau ym mhedair gêm y Bencampwriaeth ac ildio 37 yn unig. Cant a deg ar hugain oedd y cyfanrif yn y pum gêm (sgoriwyd wyth ar hugain yn erbyn Awstralia), gyda phymtheg cais, ond tri yn llai ym Mhencampwriaeth Ewrob na'r llynedd pan sgoriwyd pedwar ar ddeg.

Dyma drefn y gêmau yn 1977: Iwerddon gartre ar Ionawr 19eg — Ffrainc ym Mharis ar Chwefror 5ed — Lloegr gartre ar Fawrth 5ed — Yr Alban ym Murrayfield ar Fawrth 19eg.

Deg pwynt ar hugain yn y gêm gynta honno i roi tipyn o hyder i'r tîm cyn ymweld â Pharc des Princes — llai o fuddugoliaeth yn y fan honno, ond anferth o gweir i'r Saeson unwaith eto, ac yna pythefnos i aros cyn ymweld â Manaw Gododdin ac ugain pwynt rhwng y ddwy wlad ar y diwedd. Coron arall, a chyflawni'r GAMP LAWN eto...... synfyfyrio ym machlud tymor gwych 1976 ydy hyn, bid siŵr. Afresymol, byrbwyll, twp. Ond gall fod, wyddoch chi.

Ar brynhawn Sadwrn ola' Ebrill fe gyflwynwyd y Gwpan unwaith yn rhagor i Lanelli, ac er na fydd neb yn ei chofio fel gêm orau'r oes, bydd raid i bawb gyfaddef mai camp nid bychan ydy ennill y Cwpan bedair gwaith yn olynol (a chyrraedd y Rownd Derfynol yn nhymor cynta'r gystadleuaeth). Y Crysau Cochion ymhlith y clybiau hefyd a enillodd y prif lawryf yn 1976, ond nac anghofier gorchestwaith Pontypridd yn nhymor eu canmlwyddiant. Nhw sydd ar ben rhestr y Pymtheg Clwb (nid ydy Caerdydd ymysg y rhain), a nhw hefyd a enillodd y Bencampwriaeth annelwig honno a drefnir gan ein Papur Newyddion Cenedlaethol. Ond er iddyn nhw gyfeirio at yr ola' yma fel "Pencampwriaeth Answyddogol", ac ni ŵyr neb y tu allan i Dŷ Thomson sut y trefnir hi, mae pob clwb hyd yma sy wedi ei hennill wedi derbyn y clod a'r cinio dathlu'n ddi-rwgnach. Eleni am y tro cynta, beth bynnag, fe fydd Pwyllgor y Pymtheg Clwb yn anrhegu Pontypridd a thlws neu gwpan yn ogystal â chael cinio dathlu eto. Dyma'r trydydd tymor i'r Pymtheg gynnal eu Pencampwriaeth — Abertawe yn 1974 a Phontypŵl y llynedd oedd y pencampwyr blaenorol — ac yn ddelfrydol fe ddylid chwarae pawb ddwywaith, hynny yw, wyth ar hugain o gêmau. Y tymor hwn, beth bynnag, nid ydy pawb wedi chwarae pawb ddwywaith, yn wir mae rhai heb chwarae cyfanrif o ugain gêm hyd yn oed. Ond yn ddi-os, o gael Caerdydd i ymuno â nhw, dyma fydd y prif atyniad ar ôl y Cwpan yn y dyfodol agos, gan gofio na chafodd y syniad o Gynghrair, gyda dyrchafiad a'r gwrthwyneb, flewyn o groeso gan y clybiau mawr. Llongyfarchiadau, Bontypridd.

Dyma ei diwedd hi felly dros dro — tymor arall wedi mynd. Mi fydd y Sais yn tristau pan fydd cysgodion Medi yn cau ei dymor criced e — pan ddêl amser rhoi olew ar yr helygen. Felly minnau pan fydd heulwen Mai'n gyrru'r timau o feysydd y bêl hirgron a chôr Lloc y Gogledd yn ôl i'w gorchwylion daearol. Brysied y tymor nesa'.

THOMAS DAVIES




**Llongyfarchiadau i Dîm Peldroed Dinas Caerdydd!**

ADRAN EFRYDIAU ALLANOL
COLEG Y BRIFYSGOL CAERDYDD
"GOSOD AR GYFER CERDD DANT"
NAN JONES
yn esbonio'r gelfyddyd
SADWRN, MAI 22 ain., o 10-12 a 2-4 yn
ADEILAD CERDD Y COLEG, CORBETT ROAD.
Tâl ymaelodi: 25c. Croeso i bawb.

*UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU*
Sefydliad rhydd ac annibynnol ddeugain mlynedd ar y blaen i Ddatganoli

UCAC

Onid yw'ch ymresymu cenedlaethol yn gwbl glir sythwch y dryswch yn awr trwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen isod.

Tanysgrifiad Aelodaeth am 1976 £10.00
Athrawon ar eu blwyddyn gyntaf o wasanaeth £5.00

At: Yr Ysgrifennydd Gweinyddol, UCAC,
11 Heol Gordon, Caerdydd, CF2 3AJ, (Tel: 24692).

Amgaeaf siec/archeb post, gwerth £......, tanysgrifiad am 1976.

Enw ..............................................

Cyfeiriad preifat..................................

..................................................

Cyfeiriad Ysgol/Coleg..............................

Cyflogwr: .........................................

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn: 28917.*
*Hysbysebu gan Gyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn: 396262.*